# CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mawrth, 19 Mawrth 2024 am 10.00am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd; Gill German, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd; Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol; Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant; Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau ac Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Alan James, ac Andrea Tomlin

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (NS), Llywodraethu a Busnes / Swyddog Monitro (GW), a'r Amgylchedd a'r Economi (TW); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyllid ac Archwilio (LT) a Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd (AL) a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ a RTJ [Gweddarlledu])

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cyflwynodd yr Arweinydd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Win Mullen-James a oedd yn sâl a dymunodd wellhad buan iddi.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2024.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2024 a chadarnhau eu bod yn gywir.*

## 5 PENNU FFIOEDD CARTREFI GOFAL PRESWYL A NYRSIO 2024/25

Cyflwynodd y Cynghorydd Elen Heaton yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer gosod ffioedd cartrefi gofal preswyl a nyrsio ar gyfer blwyddyn

ariannol 2024/25 yn dilyn ymgynghoriad â darparwyr gofal ac a oedd yn cynnig cynnydd o 8.8%.

Roedd ffioedd cartrefi gofal yn rhan sylweddol o'r gyllideb gofal cymdeithasol flynyddol, gyda tua £13 miliwn yn cael ei ddyrannu i tua 364 o leoliadau mewn 82 o gartrefi gofal. Roedd darpariaeth gofal yn flaenoriaeth i'r Cyngor ac roedd hyn wedi'i adlewyrchu yn nyraniadau'r gyllideb ar gyfer 2024/25 i ddiogelu gofal cymdeithasol ac addysg gymaint ag sy'n bosibl yn ystod argyfwng ariannu Llywodraeth Leol. Rhoddwyd diweddariad ar ymgysylltu â darparwyr gofal ynghyd â dewisiadau cynyddu ffioedd ar gyfer 2024/25. Gan ystyried y goblygiadau ariannol, roedd dewisiadau cost is wedi'u cyflwyno hefyd, ond er bod y cynnydd arfaethedig o 8.8% yn sylweddol uwch na setliad 3.8% y Cyngor a byddai'n cynyddu gwariant o fwy na £1 miliwn, roedd yn cydbwyso fforddiadwyedd i drethdalwyr lleol, cynaliadwyedd gwasanaethau hanfodol eraill, a sicrhau iawndal teg i ddarparwyr gofal gwerthfawr ar ôl ystyried chwyddiant a'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Heaton fod y Cyngor yn gwerthfawrogi eu darparwyr gofal a'u bod yn ymrwymedig i feithrin perthynas agored a theg. Ni ddylai unrhyw ddarparwr deimlo eu bod yn wynebu argyfwng ariannol oherwydd iawndal annheg am wasanaethau a byddai cynnig ymarfer llyfr agored yn parhau i ganiatáu ymgysylltiad tryloyw a thrafodaeth deg am gost wirioneddol gofal a defnyddio arian trethdalwyr yn effeithlon.

Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg a'r Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd yn bresennol ar gyfer yr eitem hon. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y broses gosod ffioedd yn wahanol i'r blynyddoedd blaenorol er mwyn cyflwyno argymhelliad i'w drafod mewn fforwm cyhoeddus gyda thryloywder am y broses a gymaint ag sy'n bosibl o ymgysylltiad â darparwyr gofal a chydweithwyr rhanbarthol. Roedd polisi drws agored ar gyfer darparwyr gofal ac roedd trafodaethau am ffioedd cartrefi gofal yn cael eu croesawu trwy gydol y flwyddyn. Roedd y Grŵp Ffioedd Rhanbarthol wedi'i ail-sefydlu ac roedd ymgysylltiad wedi bod â darparwyr gofal eto a byddai gwaith yn parhau gan ystyried adborth gan ddarparwyr.

Bu'r Cabinet yn trafod yr adroddiad a nodi'r ymdrechion a wnaed i ymgysylltu â darparwyr, y themâu sy'n codi o'r ymarfer ymgysylltu dechreuol ac adborth dilynol ar ôl ymgynghoriad ar y cynnig ffioedd. Roedd y Cabinet yn awyddus i sicrhau bod pob darparwr gofal yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w staff a gofynnwyd cwestiynau o ran y dull ymgysylltu rheolaidd a chyfathrebu â darparwyr gofal, yr angen i sicrhau bod darparwyr llai yn ymgysylltu'r un fath â'r broses, a gofynnwyd am ragor o fanylion am liniaru'r risgiau a nodwyd yn yr adroddiad hefyd.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion i'r cwestiynau a'r sylwadau fel a ganlyn –

- er ei bod wedi'i gwneud yn glir bod darpariaeth ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol wedi'i chynnwys yn y gyfradd ffioedd a gynigiwyd a bod disgwyliad i ddarparwyr gofal dalu'r Cyflog hwn i'w staff, nid oedd system gytundebol na system arall i orfodi'r taliad yn gyfreithiol. Fodd bynnag, pe na bai staff yn cael y

Cyflog Byw Gwirioneddol, roedd yn debygol y byddent yn gadael i weithio i ddarparwyr eraill a oedd yn talu'r gyfradd honno.

- Roedd Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ym maes gofal cymdeithasol ac wedi sefydlu'r Fforwm Gwaith Teg gyda'r bwriad o sicrhau bod staff yn cael y tâl, telerau ac amodau, a'r gydnabyddiaeth maen nhw'n eu haeddu trwy fargeinio ar y cyd. Cadarnhawyd bod Fforwm Gofal Cymru (corff cynrychiadol ar gyfer darparwyr gofal ar draws Cymru sy'n aelodau ohono) yn aelod o'r Fforwm Gwaith Teg hefyd.
- Eglurwyd y cyswllt rheolaidd rhwng amryw aelodau o staff y Cyngor a darparwyr gofal, gan gynnwys ymweliadau cartref gan y tîm monitro contractau, cyfathrebu trwy dimau taliadau a gweithwyr cymdeithasol/therapyddion galwedigaethol, gyda deialog agored am bob agwedd ar ddarpariaeth gofal, gan gynnwys ffioedd gofal, a gellid nodi a chodi materion trwy unrhyw un o'r ffynonellau hyn. Roedd adborth dechreuol gan ddarparwyr yn croesawu ail-lansio'r Fforwm Darparwyr, a oedd wedi'i ail-sefydlu ers hynny ac roedd yn cynnig system arall ar gyfer deialog rheolaidd yn ogystal â'r polisi drws agored a'r ymarfer llyfr agored parhaus. O ganlyniad, roedd hyder o ran lefel yr ymgysylltiad â darparwyr gofal trwy gydol y flwyddyn.
- Ymhelaethwyd ar gamau lliniaru i leihau'r risgiau a nodwyd yn yr adroddiad ac eglurwyd y ddeialog barhaus â darparwyr er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa a darparu darlun clir o ddarpariaeth ar draws y sir a nodi materion gan gynnwys argaeledd a fforddiadwyedd lleoliadau priodol er mwyn diwallu anghenion yn y ffordd orau. Amlygwyd her sy'n gysylltiedig â lleoliadau gofal cymdeithasol o ystyried cymhlethdod anghenion mewn rhai achosion a'r ddarpariaeth sydd ar gael i ddiwallu'r anghenion hynny. Fodd bynnag, roedd darparwyr hysbys a oedd yn awyddus i fuddsoddi a datblygu yn Sir Ddinbych, a oedd yn anogol, ac roedd y farchnad ar gyfer datblygiad newydd yn lleihau'r risg; byddai deialog gyda'r darparwyr hynny'n parhau. Byddai'r cynnydd 8.8% a argymhellir ar gyfer ffioedd gofal yn rhoi Sir Ddinbych yn gyfartal â rhai Awdurdodau Lleol eraill ar draws gogledd Cymru, ac felly byddai'n lleihau'r risg y byddai rhai darparwyr yn dewis cynnig lleoliadau i dalwyr uwch yn unig.
- O ran y tymor hwy a rheoli risgiau'r dyfodol, lluniodd y Cyngor ei Ddatganiad Sefyllfa'r Farchnad ac ymgysylltu mewn cydweithio rhanbarthol gyda Strategaeth Gomisiynu Ranbarthol a Strategaeth Gweithlu Rhanbarthol ac roedd gwaith yn mynd rhagddo'n gyson i nodi'r anghenion ar gyfer darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol a sicrhau bod gweithlu digonol ar gael i ddiwallu'r anghenion hynny wrth symud ymlaen.
- Cydnabuwyd mai cartrefi gofal llai oedd y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth cartrefi gofal yn y sir a rhoddwyd sicrwydd bod perthnasoedd da wedi'u meithrin gyda'r rhan fwyaf o fusnesau llai lleol yn ogystal â'r busnesau mwy; roedd cartrefi gofal llai yn cael eu cynrychioli yn y Fforwm Darparwyr hefyd. Yn ogystal, bu ymdrech ymwybodol i sicrhau bod amrywiaeth o ddarparwyr yn ymgysylltu yn y broses gosod ffioedd i helpu i lywio'r gwaith cyfrifo ffioedd.

Roedd y Cabinet wedi bod yn falch o nodi'r ddeialog barhaus â darparwyr gofal trwy amrywiaeth o dimau'r Cyngor, ail-lansio'r Fforwm Darparwyr a chynnig ymarfer llyfr agored parhaus, yn enwedig o ystyried y rhagolwg economaidd ansicr, gyda system i ymgysylltu ac adolygu ffioedd trwy gydol y flwyddyn a thrafod a chefnogi darparwyr gofal o ran materion ehangach rheoli cartref gofal.

Ar y pwynt hwn, agorodd yr Arweinydd y drafodaeth i aelodau nad oeddent yn aelodau o’r Cabinet.  Gofynnodd y Cynghorydd Bobby Feeley a ddylai gwaith y Grŵp Ffioedd Rhanbarthol fod wedi’i gwblhau cyn i’r ffioedd gael eu gosod a gofynnodd am gyfranogiad Fforwm Gofal Cymru yn y broses honno; amlygwyd y diffyg ymateb gan ddarparwyr a deialog ystyrlon i lywio’r broses; a chododd bryderon am y risgiau a nodwyd yn yr adroddiad a materion a godwyd gan ddarparwyr yn eu hadborth dechreuol.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion i’r cwestiynau a sylwadau ategol pellach gan y Cynghorydd Feeley fel a ganlyn –

- gan ystyried y gwaith yr oedd gofyn i’r Grŵp Ffioedd Rhanbarthol ei wneud, roedd yn hysbys na fyddai methodoleg newydd yn cael ei chyflwyno mewn pryd i lywio’r broses o osod ffioedd ar gyfer 2024/25; rhoddwyd rhagor o fanylion am y gwaith a wnaed gan y Grŵp a gwahanol fethodolegau peilot i lywio argymhellion y dyfodol.
- Roedd Fforwm Gofal Cymru yn rhan sylweddol o’r Grŵp Ffioedd Rhanbarthol, gyda chynrychiolaeth ar y pwyllgor sefydlog ac aelodau ar y grŵp gweithredol, felly roedd yn rhan fawr o’r broses ffioedd rhanbarthol.
- byddai unrhyw oedi wrth osod y ffioedd yn creu ansicrwydd i’r sector gofal a’r Cyngor ac roedd cymeradwyo’r ffioedd cartrefi gofal, wrth dderbyn bod gwaith a thrafodaethau yn dal i fynd rhagddynt yn lleol ac ar draws y rhanbarth, yn creu’r sicrwydd a oedd ei angen ar gyfer gosod y gyllideb a rheolaeth ariannol dda, yn enwedig o ystyried bod y buddsoddiad ychwanegol arfaethedig mewn gofal cymdeithasol yn dod i fwy na £1 miliwn.
- roedd pob Awdurdod Lleol yn mynd trwy broses gosod ffioedd ar hyn o bryd, ac ni ellid cymharu’n rhwydd; roedd cynnig ffioedd Sir Ddinbych wedi bod yn seiliedig ar resymeg a oedd yn ystyried amgylchiadau lleol.
- roedd ymarfer ymgysylltu â darparwyr gofal a gynhaliwyd ym mis Hydref wedi helpu i lywio’r broses gosod ffioedd ac roedd ymgynghoriad dilynol ar y cynnig ffioedd ym mis Rhagfyr wedi cynnwys cyswllt â phob darparwr gofal a chynnig pellach o ran ymarfer llyfr agored. Roedd 9 darparwr wedi dod ymlaen o ganlyniad i’r ohebiaeth honno ac roedd trafodaethau gyda nhw’n mynd rhagddynt ac roedd adborth ar lafar wedi dod i law gan rai darparwyr a oedd yn hapus â’r cynnig ffioedd.  Roedd yn anodd dod i gasgliad o ran barn gyffredinol oherwydd nad oedd pob darparwr wedi rhoi ymateb.
- roedd rhagor o fanylion wedi’u darparu eisoes am y risgiau a’r mesurau lliniaru.
- ailadroddwyd bod proses barhaus o ymgysylltu â darparwyr gofal ac er bod ymgysylltiad â nhw bob blwyddyn o ran y broses gosod ffioedd, roedd deialog barhaus trwy gydol y flwyddyn, trwy fonitro contractau a lleoliadau dinasyddion unigol ac roedd y polisi drws agored a’r ymarfer llyfr agored yn cael eu cynnig trwy gydol y flwyddyn.  Rhoddwyd rhagor o fanylion am y Fforwm Darparwyr a oedd yn cynnwys materion fel datblygu’r gweithlu a hyfforddiant, deddfwriaeth a chanllawiau a themâu cyffredin eraill o ran materion ehangach rhedeg cartref gofal.

Roedd y Cabinet yn sylweddoli’r gwasanaeth gwerthfawr a phwysig a wneir gan ddarparwyr gofal ac roedd wedi cael sicrwydd o ran y lefel barhaus o ymgysylltiad a gwaith partneriaeth agos a wneir gyda’r darparwyr hynny trwy gydol y flwyddyn a

oedd yn cynnig digonedd o gyfleoedd am ddeialog ac ymgysylltu ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â'r sector gofal a chefnogaeth ehangach, yn ogystal â'r broses gosod ffioedd. Roedd y Cabinet wedi cael sicrwydd am y polisi drws agored ar gyfer darparwyr gofal hefyd er mwyn trafod eu ffioedd gofal ar unrhyw adeg a'r cynnig parhaus o ran ymarfer llyfr agored.

Ar ddiwedd y drafodaeth, diolchodd yr Arweinydd i bawb am eu cyfraniadau ac i'r Aelod Arweiniol a swyddogion am y gwaith caled a wnaed. Roedd yn falch bod y Cyngor wedi cynnal y broses gosod ffioedd mewn ffordd agored a thryloyw, gyda thrafodaeth mewn fforwm cyhoeddus, yn seiliedig ar resymeg glir ac mewn modd amserol.

***PENDERFYNWYD*** *Bod y Cabinet yn cymeradwyo pennu llinell sylfaen ar gyfer ffioedd cartrefi gofal ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25 yn unol â Thabl 1 ym mharagraff 4.5 yr adroddiad hwn, sy'n cynrychioli cynnydd o 8.8%.*

**6 ADRODDIAD CYLLID**

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad misol a oedd yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

Rhoddwyd crynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn –

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2023/24 oedd £250.793 miliwn (£233.696 miliwn yn 2022/23)
- rhagwelwyd y byddai gorwariant o £2.780 miliwn mewn cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- amlygwyd y risgiau ar hyn o bryd a'r rhagdybiaethau yn ymwneud â chyllidebau corfforaethol a meysydd gwasanaeth unigol
- nodwyd arbedion gwasanaeth ac arbedion effeithlonrwydd ar gyfer cyllideb 2023/24 (£8.172 miliwn)
- rhoddwyd diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, Rheoli'r Trysorlys a'r Cynllun Cyfalaf a phrosiectau mawr.

Arweiniodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio yr Aelodau drwy'r adroddiad. Roedd gostyngiad bach wedi bod yn y gorwariant a ragwelir ar gyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol o £2.780 miliwn gyda symudiad o £60,000 o'i gymharu â'r mis diwethaf. Roedd y prif feysydd gorwariant yn parhau i fod mewn Addysg a Gwasanaethau Plant, Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd, gyda mân newidiadau o'r mis diwethaf. Roedd y Cyfrif Refeniw Tai wedi nodi gostyngiad bychan yn eu tanwariant o £126,000 i £110,000 oherwydd gostyngiad mewn rhent gyda rhagolygon o falans diwedd blwyddyn o £812,000. Bu newid bach o ran y defnydd a ragwelir o gronfeydd wrth gefn ysgolion, sef £7.026 miliwn o'i gymharu â £7.054 miliwn y mis diwethaf. Roedd yr atodiadau arferol wedi'u cynnwys ar y Cynllun Cyfalaf a phrosiectau mawr.

Oherwydd bod cyfrifon y Cyngor yn cau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ni fyddai'r adroddiad monitro cyllid rheolaidd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Ebrill;

byddai'r adroddiad cyllid ar gyfer mis Ebrill yn canolbwyntio ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a byddai'n cynnwys strategaeth lefel uchel ar gyfer gosod y gyllideb yn y dyfodol. Byddai'r adroddiad sefyllfa ariannol derfynol ar gyfer 2023/24 yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Mai.

Codwyd y materion canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd –

- Ailddatblygu Marchnad y Frenhines, y Rhyl – roedd y cyfleuster wedi'i drosglwyddo i'r Cyngor ym mis Chwefror. Rhoddwyd sicrwydd nad oedd bwriad i geisio cyllid ychwanegol gan fod cyllideb ddigonol ar gael i gwblhau'r prosiect yn barod ar gyfer ei weithredu. Oherwydd rhesymau sy'n ymwneud â sensitifrwydd masnachol, ni ellir rhoi rhagor o fanylion am benodi gweithredwr ac agor y cyfleuster ar hyn o bryd, ond byddai'r wybodaeth honno'n cael ei rhannu gydag Aelodau a'r cyhoedd ehangach cyn gynted ag sy'n bosibl. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Amgylchedd y byddai'n barod i drefnu taith o'r cyfleuster a gofynnodd i Aelodau roi gwybod iddo os oeddent am fynychu. Cytunodd hefyd y byddai'n canfod y costau i'r Cyngor o gymryd cyfrifoldeb dros dro dros y cyfleuster a byddai'n adrodd yn ôl wrth y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts am hyn.
- Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – cadarnhawyd y byddai'r gwariant hyd yma'n cael ei rannu rhwng Llywodraeth Cymru (LlC) a'r Cyngor (CSDd), ac ar gyfer ysgolion â gofynion dysgu ychwanegol, byddai hyn yn rhaniad o LlC 75% / CSDd 25%, ac ar gyfer ysgolion eraill, byddai hyn yn rhaniad o LlC 65% / CSDd 35%.
- Tanwariant oherwydd rheoli swyddi gwag – roedd yr ymadrodd hwn wedi ymddangos sawl gwaith yn y Naratif Amrywiad Gwasanaeth (Atodiad 2 yr adroddiad) ac roedd yn adlewyrchu rheolyddion recriwtio sydd ar waith i ystyried pob swydd wag cyn iddi gael ei llenwi, gyda'r bwriad o leihau'r gorwariant mewn cyllidebau gwasanaeth. Roedd y broses yn cael ei dilyn ar gyfer swyddi gwag ar draws y Cyngor, nid dim ond ar gyfer maes gwasanaeth penodol ac roedd yn darparu tystiolaeth fod rheolwyr ar draws y Cyngor yn sylweddoli pa mor ddifrifol yw'r sefyllfa ariannol a'u bod yn gweithio i fynd i'r afael â hi. Roedd yn debygol bod Awdurdodau Lleol eraill hefyd yn dilyn yr un dull o ran rheoli swyddi gwag.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2023/24 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni.*

## 7 RHAGLEN WAITH Y CABINET

Cyflwynwyd rhaglen waith y Cabinet i'w hystyried a nododd Aelodau fod ychwanegiad at gyfarfod mis Ebrill sy'n ymwneud â Dyfarnu Cyllid Ffyniant Bro Llywodraeth y DU (Rownd 3) – Etholaeth Dyffryn Clwyd.

***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen waith y Cabinet.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.00 am.